Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 8 Ionawr 2021

Pwnc | Subject: Craffu ar Reoliadau drafft Safonau'r Cymraeg (Rhif 8)

Annwyl Eluned,

Diolch i chi am adael i mi wybod – yn eich llythyr dyddiedig 20 Mai 2020 – bod y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) wedi'i ymestyn i 2 Hydref 2020 oherwydd y pwysau ar reoleiddwyr iechyd, o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

Fe wnaethoch chi egluro ei bod yn debygol na fyddai gan randdeiliaid amser i ystyried y rheoliadau drafft, gan y byddai pwysau ychwanegol arnyn nhw o ganlyniad i gofrestru mwy o ymarferwyr nag arfer, a chyhoeddi canllawiau.

Rwy'n gobeithio bod y dyddiad cau diwygiedig wedi caniatáu i'r cyrff perthnasol gyflwyno eu hymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y wybodaeth berthnasol ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddio.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r Pwyllgor wedi craffu ar reoliadau blaenorol Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ynghylch yr amserlen ar gyfer gosod y rheoliadau. Mae gan y Pwyllgor amserlen brysur iawn rhwng nawr a diddymiad y Senedd, a hoffwn wneud yn siŵr ein bod ni'n caniatáu digon o amser ar gyfer cynnal gwaith craffu ar y rheoliadau yn ein blaenraglen waith.

A fyddech chi cystal â chysylltu â Chlerc y Pwyllgor ar **seneddDGCh@senedd.cymru** gyda'r amserlen a ragwelir ar gyfer gosod y Rheoliadau erbyn 29 Ionawr 2021, er mwyn i ni allu cynllunio ar gyfer y gwaith hwn?

Yn gywir,

Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565